

Canolfan yn y Gymuned

Cylchlythyr Canolfan y Fron

Rhagfyr 2020

Helo. Mae wedi cymryd dipyn o amser i gynhyrchu'r 2ail gylchlythyr gan ddefnyddio ein fformat newydd. Mae'r misoedd diweddar wedi bod yn hynod o brysur ond nawr mae'r brechiadau Covid-19 yn edrych yn addawol, medrwn weld oleuni ar y gorwel a'n prif fwriad yw cael y Ganolfan mewn cyflwr da ar gyfer tymor 2021. Fel mae bywyd yn dychwelyd i ryw fath o normalrwydd, un o'n botymau poeth yw cyfathrebu gyda'n haelodau a'r gymuned, felly byddem yn cynhyrchu **Canolfan yn y Gymuned** yn fwy cyson yn y dyfodol.

Y Siop

Os ydych wedi ymweld â'r Siop yn ddiweddar fe fyddwch yn ymwybodol bod newidiadau yn cael eu gwneud. Mae'r wal rhwng y Siop ar swyddfa fechan tu ôl iddo wedi cael ei ddymchwel. Mae'r lle gwag ychwanegol sydd wedi'i greu am ein caniatáu i werthu alcohol, gweini bwyd a diodydd parod a darparu gwell croeso i ymwelwyr y Llety. Mae'r swyddfa wrth ochr y Siop wedi'i droi'n storfa fel bod y Siop yn gallu darparu gwasanaeth mwy dibynadwy i gwsmeriaid.

Y Llety

Ail agorwyd y Llety ym mis Gorffennaf ar sail un grŵp teulu ar y pryd oherwydd nad oedd cyfarwyddiadau Covid-19 yn caniatáu rhannu cyfleusterau. Ym mis Awst, cyhoeddwyd Llywodraeth Cymru y buasai llety yn cael cynnig cyfleusterau cyfrannol, ond awgrymwyd bod ceginau cyfrannol yn parhau i gael eu gosod i un grŵp teulu yn unig hyd nes derbyn cyngor pellach. Ni chafwyd y cyngor hwn felly cymerwyd y penderfyniad i gau'r gegin gyfrannol i ganiatáu i'r Llety gael ei ddefnyddio i'w capasiti llawn. Rydym yn y broses o osod pwyntiau tegell yn yr ystafelloedd i ganiatáu'r ymwelwyr wneud te a choffi a byddem yn gwerthu bagiau brechwast iddynt. Mi fyddem hefyd yn newid llwybr fel nad oes rhaid pasio drwyddo i fynd i'r Neuadd Ddeheuol.

Newidiadau Staff

Ym mis Medi fu Christine Humphries a Pauline Williams ymddiswyddo. Bu Christine yn gweithio yn y Siop o'r cychwyn a gwnaeth joban wych o'i gadw'n agored trwy'r cloi lawr gyntaf. Glanhawr yn yr ysgol oedd Pauline a pharhawyd i helpu gyda'r glanhau ar ôl iddo gael ei thrawsffurfio i'r Ganolfan a bu gweithio trwy'r cloi lawr gyntaf hefyd. Hoffwn ddyuno yn dda i'r ddwy a gobeithio, yn y dyfodol, y gallant gyfrannu i'r Ganolfan unwaith eto. Anibal Sousa a oedd yn y Caffi gynt sydd wedi'i benodi fel Gofalwr i'r Ganolfan. Hoffwn hefyd ymestyn croeso i Dalton Pringle a Cadi Hughes i deulu'r Ganolfan. Mae Cadi yn gweithio yn y Siop a bu Dalton ymuno a ni fel glanhawr ond gyda chaefa'r Llety a cyn lleied o ymwelwyr yn sgil y cloi lawr yn Lloegr, mae o hefyd yn gweithio yn y Siop.

Y Bwrdd

Mae newidiadau hefyd wedi bod i'r Bwrdd. Mae Gwenda Roberts ac Anwen Harman wedi gadael a dymunwn yn dda i'r ddwy am y dyfodol. Mae Eiriona Williams wedi ymuno a'r Bwrdd fel aelod cyfetholedig. Cafwyd John Rowlands ei ethol yn swyddogol i'r Bwrdd yn yr CCA ar Fedi'r 17eg 2020. Mae Mandy Hindle wedi sefyll i lawr fel Cadeirydd ond yn parhau i fod yn aelod bywiog o'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi pleidleisio rhoi'r Gadair i John Rowlands a fydd hyn yn cael ei rhoi o flaen yr aelodau yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf..

Gwirfoddolwyr

Heb gefnogaeth ymroddedig y gwirfoddolwyr, ni fuasai'r Ganolfan wedi goroesi y cloi lawr. Wedi eithrio'r cyfarwyddwyr, gwnaethom elwa o 288 awr o amser gwirfoddoli ym mis Hydref. Rydym yn hynod ddiolchgar o'u hamser a'u hymdrechion sy'n golygu y gallem agor 7 diwrnod yr wythnos. Mae Helen, Eiriona, Alison, Bethan, Mason, Jules, Owain, Jim, Martin, Ellen, Nia ag Eddie wedi bod mor bwysig i'n galluogi i gynnig gwasanaeth lawn yn y siop, ambell waith ar fyr rybudd. Diolch arbennig i Nia ag Eddie am helpu wirio stoc y siop ac i Mason am neidio i'r adwy i ddelio hefo cwsmeriaid pan oeddem yn gweithio. Roedd Christine a Pauline yn gwneud llawer iawn o wirfoddoli ar ben eu Gwaith cyflogedig. Roedd y grwp 'papur newydd'n Mike, Alison, Jim, Bryn a'l helper Kate wedi sicrhau fod cwsmeriaid a thrigolion sy'n methu mynd allan, yn cael eu hoff bapurau newyddion. Mae Alison wedi bod yn ddiwyd weithio ar brosesau lechyd a Diogelwch a chynllunio ar gyfer hyfforddiant gydag Anibal, gan gynnwys cyfarfod gyda'n cynghorwyr I a D. Gwerfyl sydd wedi bod yn dosberthu ebyst nes y cawsom drefn ar fynediad o bell. Bellch mai wrthi ar hysbysiadau, posterï a chydig o waith admin o Companies House. Os oes ganddoch ddiddordeb mewn gwirfoddoli, gadewch eich manylion yn y siop a byddwch yn siwr o ddod nol atoch.

Proffil o John Rowlands - Cwrdd â Mr Gwahanol!

Penderfynais gyfnewid a John Rowlands i ddarganfod mwy am y gyrrwr fan lwyd. Yn wreiddiol o Langefni lle'i fagwyd mewn teulu Cymreig. Bu ei dad yn gweithio i Anglesey Aluminium am 35 mlynedd a gwraig tŷ gydag ochr mentwraidd oedd ei Fam, yn rhedeg fan byrgyr am gyfnod ynghyd a gwerthu llyisiau cartref. Yn glir, bu'r John ifanc etifeddu'r ysbryd mentwraidd yma, oddeutu 7 oed fe ddechreuodd casglu caeadau poteli i gael pres poced cyn symud ymlaen i'r busnes mwy enillfawr o gasglu poteli ar gyfer y blaendal. Erbyn iddo fod yn 9 oed roedd yn gweithio ar fferm, yn flaenorol yn casglu wyau ond wrth iddo gryfhau fe ddaru symud ymlaen i fod yn weithiwr fferm. Yma fu iddo ddatblygu ei gynigiad busnes nesaf. Roedd digon o golomennod yn adeiladau'r fferm ac roedd yn eu dal ac yn gwerthu nhw am o gwmpas £20 i ffansiwyd colomennod. Roedd hyd yn oed wedi darganfod ei fod yn gallu gwerthu'r adar amryw o weithiau oherwydd roedd rhai o'r ffansiwyd yn ceisio rasio nhw yn rhy fuan a byddent yn hedfan yn ôl i'r fferm!

Ar adael ysgol bu John yn hyfforddi fel ffitiwr disel ond roedd hi'n anodd cael gwaith felly ymrestrwyd gyda'r fyddin, yn ymuno a Chorfflu Milfeddygaeth y Fyddin Frenhinol. Ar ôl hyfforddi cafwyd ei bostio yn Munster yn yr Almaen; yn sicr ddim yn amser heriol gan mai ei brif atgof yw rhedeg y dafarn lle cyflwynodd rols fel rhan o'r offrwm. Yn Haf 1990 bu Iraq ymosod ar ei gymydog Kuwait ac o Awst bu i'r UDA, Prydain a cynghridiaid eraill yn paratoi am y Rhyfel Gwlff i ryddhau Kuwait. Anfonwyd allan ym mis Hydref a symudwyd i ordnans cyn cymryd rhan yn yr ymosodiad ar Iraq yn 1991.

Yn 1993 adawodd y fyddin, dychwelodd i Ynys Môn, bu priodi a chael swydd gwarchodwr diogelwch mewn lladd-dy. Ond nid yw'n bosibl cadw mentrwr da i lawr; yn fuan roedd wedi troi'r gwaith diogelwch yn fusnes ei hun, bu ymestyn i lanhau ac wedyn i lorio. Roedd y gwaith llorio yn ei wneud mor brysur fu rhaid iddo cael rhywun i rhedeg gweddill o'i busnesau, ond cymerodd toll personol gyda'i phriodas yn torri lawr ar ôl 2 flynedd. Pan fu ei bartner yn y busnes llorio gadael, bu John ail gychwyn y busnes. Fe ail briododd a bu'r busnes fynnu yn mynd ag ef ar hyd y DU. Ond fel mae pethau'n codi mae'n rhaid iddynt disgyn hefyd. Yn anffodus oherwydd dirwasgiad bu rhaid cau'r busnes. Cafodd John ei daro'n galed ac unwaith eto cymerwyd toll ar ei briodas am yr ail dro. Cafwyd y diagnosis o Post Traumatic Stress Disorder (PTSD) wedi'i gysylltu â'r Rhyfel Gwlff.

Ar ôl therapi llwyddiannus, dechreuodd John fusnes cynnal a chadw eiddo ar Ynys Môn. Roedd gan ffrind iddo fusnes gosod llefydd tân ac ysgubo simnai. Roedd John yn helpu ar adegau ac yn fuan disgynnodd mewn cariad a phopeth huddygl a myglyd! Pan gafodd ei ffrind ddamwain, bu John gymryd y busnes drosodd. Un diwrnod fe ddaeth i wneud joban yng Ngharmel ac yno bu iddo gyfarfod ei wraig bresennol, Jill. Dyn o'r Ynys wedi troi'n ddyn o Landwrog Uchaf.

Felly, pa nodweddion y gwelais yn John Rowlands? Yn sicr, mae ganddo amynedd enfawr. Mae'n mwynhau mynd i sbotio ceirw yn yr Alban. Mae rhywun a all aros yn llonydd am gyfnodau hir o amser mewn tywydd gwlyb a gwybiaid gyda llond trol ohono. Serch hynny, mae o'n dipyn o guddiwr gan nad yw'r dwrgwn a ffesantod lleol yn ei weld yn cuddio yn y grug. Mae o hefyd yn lwth am gosbedigaeth, dyma'r unig ffordd i ddisgrifio rhywun sydd yn hedfan microloght amryw o weithiau gyda modur oedd yn methu drosodd a throsodd.

Gofynnais i John beth oedd ei gweledigaeth o'r Ganolfan a dywedodd ei bod o eisiau ei gwneud yn llwyddiant ac i greu incwm. Mae'n hoffi sialens ac mae'n credu mewn byd sydd wedi newid gymaint, fe all helpu'r Ganolfan darganfod bôn cynnyrch unigryw. Gofynnais iddo sut y buasai'n disgrifio ei hun a dywedodd "Dwi'n Mr Gwahanol".

Mike Elsdon

Nodiadau gan y Cadeirydd

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol iawn hyd yn hyn gyda'r pandemig yn efryddu'r economi. Mae caffis a lletai wedi cau eu drysau am y dyfodol gweleradwy dros ym myd eang! Fel rydych wedi gweld ar dudalen 1 rydym wedi gorfod ail feddwl llawer o agweddau CYF er mwyn cadw ein pen uwch y dŵr.

Mae hyn i gyd yn bosibl gyda diolch i'r tîm hynod fedrus o gyfarwyddwyr CYF sydd yn griw hynod ffantastig i weithio a hwy. Mae'n ffraind i mi gael arwain y tîm yma. Rhaid cymryd i ystyried bod pob eiliad o amser y maent yn rhoi i CYF yn hollol ddi-dâl, eu unig wobr yw'r boddhad o gael helpu eraill.

Bellach mae gennym bedwar aelod o staff rhan amser sydd yn gwneud gwaith eithriadol yn rhedeg y Llety, neuadd a'r Siop. Cadi a Dalton sydd yn ddiweddar wedi ymuno i redeg y Siop. Mae ein tîm o wirfoddolwyr Eiriona, Alison a Bethan yn wych. Mae fel tŷ gwyllt ar adegau ac yn lot mawr o hwyl gweithio efo'r criw boncysr yma! Anibal Sousa yw'n gofalwr newyd. Mae o'n gwneud arolygon iechyd a diogelwch yn rheolaidd ac yn helpu efo ail modelu'r Siop a'r Llety.

Jim Embrey sydd yn gyfrifol am logi'r Llety yn cyd-weithio gyda Mike Elsdon sydd yn defnyddio ei wybodaeth o redeg llety yn yr ardal a'i sgiliau TG i ail fampio'r Llety, priso a'r deunydd sydd ar y safleoedd bwcio. Mae Mike hefyd wedi cymryd cyfrifol am farchnata, gwylwch yma!

Mae Sandy, ein Trysorydd medrus wedi bod yn gweithio'n diwydrwydd ar y cyfrifon ac mae gennym bellach system cyfrifon werth chweil efo Sage sydd yn cael ei monitro gan ein cofnodwr cyfrifon newydd Julianne Pringle. Mandy ein cyn Cadeirydd sydd yn gyfrifol am bopeth gweinyddol yn ogystal ag arwain y rhwydwaith gwirfoddolwyr. Mae hi hefyd yn gwirfoddoli yn y Siop ar fore Sadwrn, teipio cofnodion cyfarfodydd, yn gweithio llawn amser ac edrych ar ôl ei theulu! Mae Yn ddiweddar mae Steve wedi dod yn wych o'r tîm. Yn ogystal â rhedeg busnesau eu hun a gofalu am ei deulu, mae'n delio a sialensiau cyson TG CYF yn sgil y newidiadau diweddar.

Y fi sydd yn gyfrifol am y Siop a chynnal a chadw'r adeilad. Rydym yn bwriadu defnyddio hen ffensiâu i amgáu'r system gwresogi trydan. Mae peirianwyr wedi'u llogi i wasanaethu'r gwresogydd am y tro gyntaf. Rydym yn sicrhau iechyd a diogelwch bod ymwelydd ynghyd a staff/gwirfoddolwyr trwy weithred uniongyrchol ar allanfeydd tân gydag offer diffygiol yn cael eu hailosod neu symud.

Un peth rwyf eisiau datblygu yw ein perthynas gyda'r gymuned. Nid ydych yn disgwyl unoliaeth berffaith mewn amgylchedd pentref bychan ond, yn drist, mae nifer bychan yn anghytuno gyda'n syniadau ar sut i redeg a pha benderfyniadau rydym yn eu gwneud i gadw CYF uwchben dwr ar yr adeg anodd yma. Mae adegau wedi codi lle mae straeon ffug yn cael eu cylchredeg e.e. bod un o'r cyfarwyddwyr wedi bod yn cymryd arian gan CYF. Mae'n rhaid i ni dderbyn lle rydym: nid yw'r ysgol yn dod yn ôl a CYF yw'r siawns gorau i wneud defnydd o'r adeilad er budd y gymuned ond mae Covid-19 yn golygu bod rhaid i'r cyfarwyddwyr gwneud penderfyniadau anodd ac ar adegau amhoblogaidd er mwyn ein cadw yn fyw. Mae rhai yn y gymuned eisiau i'w teimladau personol dylanwadu pwy sydd yn cael eu cyflogi yn y Ganolfan a hyd yn oed dylanwadu eu telerau ac amodau. Nid yw hyn yn bosibl, y Bwrdd yn unig sydd a'r hawl i benderfynu pwy sydd yn addas ar gyfer pa swydd a gyda chyllideb mewn golwg, eu cymeradwyo yn unol â'u cyfraniad i CYF. Mae barn y gymuned yn angenrheidiol i lwyddiant CYF ac mae'r Bwrdd yn gwrando yn astud arnynt ond rydym yn gofyn am awgrymiadau positif ar sut i wella CYF yn hytrach na'r negatiffedd cyson gan grŵp bychan o bobl.

Mae gennym syniadau ar sut i ddatblygu CYF ond mi fuaswn yn falch o dderbyn syniadau gan y gymuned. Mae rhai o'r syniadau yn cynnwys: a ddylwn redeg teithiau cerdded o CYF; all y caffis cynhyrchu bwydydd yn unigryw i'r ardal; oes angen man cymunedol ac oes angen mwy o fyrddau picnic?

Wel dyna'r cwbl gennyf am y mis yma. Rwy'n ymwybodol fy mod wedi cymryd beth amser i gysylltu. Rwyf yn gobeithio eich bod yn gwerthfawrogi bod amser yn werthfawr ac rydym ar adegau yn gorfod delio a gwrthdynciadau sydd yn ein tynnu oddi wrth ein prif amcan o adeiladu canolfan cymunedol ffyniannus.

John Rowlands aaf Mr Gwahanol

Datganiad gan y Bwrdd

1. Ar 13eg o Hydref 2020 bu i un o'n cyfarwyddwr, Mandy Hindle, postio neges ar grwp preifat WhatsApp a oedd yn cyfeirio at lafurio.
2. Derbyniwyd cwyn geiriol gan un aelod o'r grwp WhatsApp ac mae'n ymddangos fod y neges wedi cael ei weld gan rywun tu allan i'r grwp hefyd ac o ganlyniad mae honiad wedi ei wneud bod hyn yn cyfeirio at gymorth gwirfoddolwyr yn y Ganolfan.
3. Rydym wedi ymchwilio'r neges ac wedi diweddu mai'r bwriad oedd jôc. Nid oedd y bwriad iddo gael ei dehongli at unrhyw aelod o staff neu wirfoddolwr yn y Ganolfan.
4. Mae llawer o bobl yn meddwl na ddylai caethwasiaeth bod yn destun unrhyw jôc ac rydym yn derbyn fod y neges mewn chwaeth ddrwg i rai pobl. Rydym yn ymddiheuro am unrhyw gyfyngder a achoswyd.
5. Hoffwn ei wneud yn glir bod bawb yn CyF yn condemnio caethwasiaeth mewn pob dull.

Cylchgrawn y Ganolfan – Adolygiad Digwyddiadau

Diwrnod Owain Glyndŵr

Ar 16eg o Fedi bu dathlu pen-blwydd cyhoeddiad Owain Glyndŵr fel Tywysog Cymru yn 1400. Roedd y tywydd braf yn golygu y cawsom ddefnyddio'r iard a'r cae chwarae i gynnal digwyddiad llwyddiannus gyda chyfyngiadau Covid-19 yn cael eu dilyn. Diolch i Christine am ei drefnu.



Newyddion Siop

Mae'r addasiadau i'r Siop yn dod yn eu blaen. Yma gwelwn Anibal yn paentio'r plastr newydd ble mae'r wal wedi cael ei dynnu. Nid oedd posibl gweld ei wên felly y mae wedi tynnu ei mwgwd i lawr wrthym gadw ein pellter Covid-19!



O na, dim eto!

Mae to'r Ganolfan wedi dioddef niwed gwynt am y pedwerydd tro. Rydym yn ymwybodol ei bod yn wyntog yma yn Fron ond mae'n rhaid bod y Ganolfan mewn man gwyntog dros ben. Mi fydd symud i fan llai agored dipyn o gamp felly rydym wedi cymryd cyngor gan arbenigwyr toi ac mae'n ymddangos bod y llechi yn rhy denau i bwysau'r gwynt ar yr ochr yma o'r to. Y gost am ail doi gyda llechi mwy trwchus fydd £5,000. Mae'r Bwrdd yn cysidro ffyrdd i godi'r arian.



Codi Arian i MacMillan

Syniad Eddie Willcox oedd cael y Ganolfan yn hwb i godi arian at yr achos flynyddol MacMillan.

Rhaid oedd cohio'r bore coffi a drefnwyd oherwydd y clo lawr, ond gwnaethpwyd swm anrhydeddus o £485 trwy raffl. Cafwyd gwobrau hael fel MOT am ddim (gan B & K Williams). Diolch o gallon i Eddie a'r tim o wirfoddolwyr am wireddu'r achlysur.

Diffibriliwr i'r Gymuned gan y Gymuned

Wel, mae'r diffibriliwr wedi cyrraed ac aros rydym ar gwpwrdd storio a bydd yn cael ei osod. Diolch yn fawr i Liz Williams ac chyn aelodau'r bwrdd rheoli am gael yr adnodd yma i'r pentref.

..... ac i ddiweddu

Mae critig o'r Bwrdd yn ddiweddar wedi disgrifio'r Aelodau fel 'Muppets'. Mae hyn wedi creu dipyn o ddyfaliad o bwy ddylai cymryd pa rôl. Penderfynwyd mai John Rowlands ydi Kermit - yn actio fel cyflwynydd a dipyn yn wyrdd. Roedd Mandy eisiau bod yn Animal felly mae'r Bwrdd am wneud casgliad i brynu lliw gwallt coch llachar iddi. Mae Mike, gan gymryd i ystyried mai ef yw ateb Fron i Basil Fawly, wedi dewis Whaldorf. Sandy? Y Swedish Chef ac yn olaf, Steve ydi Fozzie Bear. Mae hyn yn gadael un gwagle allweddol - Miss Piggy? Felly Eiriona, wyt ti'n siŵr dy fod eisiau ymuno a'r Bwrdd?